Cyflwyniad

Un Llais Cymru

One Voice Wales

Beth yw cynghorau cymuned a thref?

Mae 735 cyngor cymuned a thref yng Nghymru; maent yn gyrff corfforaethol ac yn awdurdodau lleol. Mae ganddynt lais grymus i gynrychioli pobl leol.

Beth mae'r cynghorau hyn yn ei wneud?

Cynghorau cymuned a thref yw'r rhan o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Maen nhw'n gwasanaethu'r ardal leiaf ac yn gyfrifol am y materion mwyaf lleol. Un cyfrifoldeb pwysig iawn yw y gall y cynghorau hyn godi "presept" – swm o arian a gesglir gyda threth y cyngor bob blwyddyn ar gyfer gwella cyfleusterau a gwasanaethau i bobl leol.

Yng Nghymru fe'u gelwir yn gynghorau cymuned, neu gynghorau tref os ydynt yn gwasanaethu ardal sy'n bennaf yn drefol. Yn Lloegr fe'u gelwir yn gynghorau plwyf. Yng Nghymru a Lloegr maent yn unedau llywodraeth leol etholedig y caiff eu gweithgareddau eu rheoli gan Ddeddfau Seneddol neu ddeddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan gynghorau cymuned a thref nifer o gyfrifoldebau sylfaenol ar gyfer gwneud bywydau cymunedau lleol yn fwy cyfforddus, llawer ohonynt yn rhai sy'n aml yn cael eu cymryd yn ganiataol. Yn y bôn, mae'r grymoedd hyn yn perthyn i dri phrif gategori: cynrychioli'r holl etholwyr o fewn y gymuned, darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol, a cheisio gwella ansawdd bywyd yn y gymuned.

Mae grymoedd unigol yn cynnwys darparu a gofalu am gynlluniau trafnidiaeth cymunedol, cynlluniau arafu traffig, prosiectau ieuenctid lleol, gweithgareddau twristiaeth, cyfleusterau hamdden, meysydd parcio, lawntiau pentrefol, tai bach, bi-niau sbwriel, goleuadau stryd, glanhau strydoedd, mynwentydd, rhandiroedd, cysgodfannau bws, tir comin, llecynnau agored, llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau a chamau lleihau troseddu.

Mae cynghorau cymuned a thref hefyd yn gallu cynnig barn ar geisiadau cynllunio – maen nhw'n ymgynghoreion statudol (mae'n rhaid ymgynghori â nhw os ydynt yn dymuno hynny) a gellir eu cynrychioli mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 rym newydd 'lles', sy'n adlewyrchu menter Llywodraeth Cymru i adfywio democratiaeth leol a galluogi'r sector i wneud mwy i wella sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol leol ardal.

Beth mae cynrychiolwyr etholedig yn ei wneud imi?

Mae cynghorwyr cymuned a thref yn cynrychioli'r bobl sy'n byw yn eu hardal leol ar y lefel sydd agosaf i'r gymuned. Pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, maen nhw yno i leisio barn eu hetholwyr.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch â'ch cyngor cymuned neu dref lleol. Gallwch hefyd gysylltu ag Un Llais Cymru, y corff sy'n cynrychioli cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, ar 01269 595400.

One Voice Wales, 24c College Street, Ammanford, Carmarthenshire, SA18 3AF
Tel:- 01269 595400 Fax:- 01269 598510
Email:- admin@onevoicewales.org.uk Website:- www.onevoicewales.org.uk